



Amcanion ac Athroniaeth CWVYS

Addysgu a helpu pobl ifanc ddatblygu'u galluoedd corfforol, meddyliol, diwylliannol ac ysbrydol er mwyn iddynt dyfu i aeddfedrwydd llawn fel unigolion ac aelodau o'r gymdeithas trwy hwyluso cefnogaeth a chydweithrediad ar y cyd ymhlith Sefydliadau Ieuenctid Gwirfoddol, y Gwasanaeth Ieuenctid ac Asiantaethau eraill perthnasol yng Nghymru.

CEFNDIR CWVYS

CWVYS yw'r corff cynrychiadol annibynnol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru.

Yr amcanion yw cynrychioli, cefnogi a rhoi llais casgliadol i'w aelodaeth o sefydliadau cenedlaethol a lleol yn eu gwaith gyda dros 250,000 o bobl ifanc yng Nghymru.

Mae'n gorff elusennol annibynnol sy'n hyrwyddo diddordebau eu haelodau. Sefydlwyd CWVYS ym 1974, a chafodd ei ragflaenu gan y Gynhadledd Sefydlog o Sefydliadau Gwirfoddol yng Nghymru, daeth i fodolaeth yn 1947.

Mae aelodau CWVYS yn cynnwys sefydliadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a lleol yng Nghymru. Gyda'i gilydd mae'r aelodau'n gweithio gyda dros 250,000 o bobl ifanc rhwng 11 – 25 mlwydd oed. Mae'r Cyngor yn cynnwys dau gynrychiolydd o bob sefydliad sy'n aelod dan arweiniad Cadeirydd mygedol. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cynnwys deg cynrychiolydd oddi wrth sefydliadau cenedlaethol a deg sefydliadu lleol cymunedol. Mae aelodaeth ar gael i bob sefydliad gwirfoddol sy'n cytuni gydag amcanion y Cyngor ac sy'n rhannu ei chylch gorchwyl ar gyfer gwaith ieuenctid.

Mae **CWVYS** yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau sy'n hyrwyddo arferion gwaith ieuenctid da.

Mae CWVYS yn cyflawni'u hamcanion gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- Eiriolaeth
- Hyrwyddo arferion gwaith ieuenctid da
- Ymglymiad gyda pholisi lleol a chenedlaethol
- Datblygu adnoddau
- Hyrwyddo'r Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid yng Nghymru
- Prosiectau mewn partneriaeth
- Cefnogi Ymestyn Hawliau a pholisiau ieuenctid eraill yng Nghymru
- Rhwydweithio yng Nghymru, y DU ac ymhellach
- Hyrwyddo ieithoedd a diwylliannau Cymru
- Cefnogi amrywiaeth a chyfle cyfartal
- Materion yn ymwneud â hyfforddiant, achredu ac ansawdd
- Rhannu gwybodaeth ac arferion da
- Cefnogi ymglymiad sefydliadau a phobl wrth ymgynghori â phobl ifanc
- Cefnogaeth gyda chyllid